# CORONAFEIRWS (COVID-19): DIWEDDARIAD WYTHNOSOL I DDARPARWYR GOFAL

# CORONAVIRUS (COVID-19): WEEKLY UPDATE FOR CARE PROVIDERS

**16 September / 16 Medi**

Mae Darparwyr Gofal Cymdeithasol yn parhau i rhoi gefnogaeth hanfodol i'r dinasyddion sydd fwyaf mewn perygl yn ein cymunedau. Rydym yn deall bod y sefyllfa ar gyfer darparwyr gofal yn parhau i fod yn dyngedfennol ac rydym yn ddiolchgar am eich ymrwymiad anhygoel a'ch gwaith caled.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r cyngor diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) a Llywodraeth Cymru.

Nod y briff hwn yw rhoi gwybod i ddarparwyr am y diweddariadau diweddaraf, darparu cyngor ac ymateb i ymholiadau cyffredinol.

**Gellir gweld y bwletin hwn a bwletinau blaenorol hefyd ar wefan ADSS Cymru -** os oes gennych unrhyw ymholiadau am y bwletin, cysylltwch â Rachel Pitman [rachel.pitman@adss.cymru]

Social Care Providers are continuing to provide vital support to the most at-risk citizens in our communities. We understand that the situation for care providers remains critical and we are grateful for your incredible commitment and hard work.

This document should be read in conjunction with the most recent advice from Public Health Wales (PHW) and Welsh Government.

The aim of this briefing is to keep providers informed of the latest updates, provide advice and respond to general enquiries.

**This bulletin and previous bulletins can also be found on the ADSS Cymru website –** if you have any queries about the bulletin, please contact Rachel Pitman [rachel.pitman@adss.cymru]

| Pwnc | Manylion | Dolen |
|---|---|---|
| | **Arolygaeth Gofal Cymru** | |
| **Adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia** | Ystyriodd adolygiad AGC y gofal a gafodd pobl sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal yng Nghymru a sut y cawsant eu cefnogi yn ystod y cyfnod pwysig hwn yn eu bywydau. | Dolen i'r adolygiad |
| **Adolygiad cenedlaethol o atal a hyrwyddo** | Edrychodd adolygiad AGC ar y cynnydd a wnaed gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd er mwyn helpu oedolion hŷn i fod mor annibynnol â phosibl, yn unol â Deddf | Dolen i'r adolygiad |

| Topic | Detail | Link |
|---|---|---|
| | **Care Inspectorate Wales** | |
| **National review of care homes for people living with dementia** | The CIW review looked at the care received by people living with dementia in care homes in Wales, and how they are supported in this important stage of their lives | https://careinspectorate.wales/national-review-care-homes-people-living-dementia |
| **National review of prevention and promotion of** | The CIW review of the progress made by local authority social services and health boards in supporting older adults to be as independent as possible, in line with the Social Services and Well-being Act (Wales) 2014 | https://careinspectorate.wales/national-review-prevention-and-promotion- |

| | | |
|---|---|---|
| **annibyniaeth i oedolion hŷn** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | |
| **Gofal Cymdeithasol Cymru** | | |
| **Dweud eich dweud am yr hyn rydyn ni'n meddwl yw'r blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf** | Rydym yn cydnabod bod angen i ofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar fod yn wahanol iawn er mwyn ymateb i newidiadau demograffig, economaidd ac anghenion cymdeithasol ymhen pum mlynedd. Credwn fod hynny'n golygu bod angen i ni, fel sefydliad, fod yn wahanol iawn hefyd.<br><br>Rydyn ni am glywed eich adborth gonest am ein blaenoriaethau arfaethedig, fel y gallwn fod yn hyderus y bydd ein cynllun pum mlynedd yn diwallu anghenion newidiol y sectorau a chefnogi'r gweithlu, cyflogwyr ac arweinwyr yn y misoedd a blynyddoedd i ddod. | https://gofalcymdeithasol.cymru/straeon-newyddion/dweud-eich-dweud-am-yr-hyn-rydyn-nin-meddwl-ywr-blaenoriaethau-ar-gyfer-y-pum-mlynedd-nesaf |
| **Porth swyddi Gofalwn.Cymru** | Cyflogwyr gofal cymdeithasol: rydym am helpu i fynd i'r afael â phrinderau staff y gallech fod yn eu hwynebu ar hyn o bryd. I'ch helpu i ddod o hyd i'r bobl gywir i lenwi'ch swyddi gwag a chefnogi'ch busnes, rydym wedi creu porth swyddi a fydd yn rhestru'r swyddi gofal cymdeithasol presennol yng Nghymru.<br>Postiwch eich swyddi gwag ar Twitter gan gynnwys y manylion canlynol:<br>• teitl y swydd<br>• awdurdod lleol (os yw'r swydd yn cwmpasu mwy nag un awdurdod, dylech gynnwys pob un)<br>• disgrifiad cryno o'r rôl<br>hashnod: #SwyddiGofalwnCymru (mae'n rhaid i chi gynnwys hwn) | https://www.gofalwn.cymru/ |

| | | |
|---|---|---|
| **independence for older adults** | | independence-older-adults |
| **Social Care Wales** | | |
| **Have your say on what we think are the priorities for the next five years** | We recognise that social care and early years in Wales will need to be very different in five years' time to respond to changing demographic, economic and social needs, and we think that means that we, as an organisation, need to be very different, too.<br><br>We want to hear your honest feedback about our proposed priorities so that we can be sure our five-year plan will meet the changing needs of the sectors and support the workforce, employers and leaders in the months and years ahead. | https://socialcare.wales/news-stories/have-your-say-on-what-we-think-are-the-priorities-for-the-next-five-years |
| **WeCare Wales jobs portal** | Social care employers: we want to help address the staff shortages you might be facing right now. To help you find the right people to fill your vacancies and support your business, we've created a jobs portal that will list current social care jobs in Wales.<br><br>Post your job vacancies on Twitter and include the following details:<br>• job title<br>• local authority (if the role covers more than one authority, include them all)<br>• brief description of the role<br>hashtag: #WeCareWalesJobs (you must include this). | http://www.wecare.wales/ |

| | | |
|---|---|---|
| **Academi Wales: Adeiladu Perthnasoedd Effeithiol**<br><br>**Digwyddiad ar lein 1 awr, 13 Hydref 2020 am 10:00 tan 11:00** | Bydd y sesiwn ar-lein hon fydd yn para am awr yn canolbwyntio ar fapio eich perthynas bresennol gartref ac yn y gwaith, edrych ar yr hyn sy'n gweithio a beth y gellid ei wneud i wneud gwelliannau o ran meithrin eich perthnasoedd, yn enwedig yng nghyd-destun Pandemig Covid-19 a'n hangen i gyfathrebu mewn ffyrdd heblaw wyneb yn wyneb.<br>Mae hon yn rhaglen gyfannol sy'n canolbwyntio ar fod o fudd i bob agwedd ar eich bywyd yn hytrach na gwahanu'r gwaith a'r cartref.<br>*Manteision i chi*<br>Byddwch yn gallu:<br>· creu map o'ch perthnasoedd presennol (cewch gyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn cyn y sesiwn)<br>· nodi pa rai o'r 5 gwerth allweddol sy'n bresennol ym mhob perthynas<br>· archwilio sut y gellid gwella perthnasoedd<br>· datblygu perthynas fwy cadarnhaol gan ddefnyddio nifer o dechnegau profedig<br>*Cynulleidfa darged*<br>Agored i holl staff y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. | Dolen i'r gwybodaeth |
| **Cymorth Cymru** | | |
| | Mae Arwyr Gofal Cymdeithasol yn ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r gweithlu Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae Cymorth Cymru wedi bod yn cynnal yr ymgyrch trwy gydol yr haf ac yn awr eisiau rhannu â'u **cardiau post ymgyrch** ddwyieithog newydd sbon wrth i ni nesáu at yr hydref. | Pledge Banner Postcard.pdf<br>Cyswllt yr ymgyrch: |

| **Academi Wales** | | |
|---|---|---|
| **Academi Wales: Building Effective Relationships 1-hour online event 13 October 2020 @ 10:00 - 11:00** | This one-hour online session will focus on you mapping your current relationships both at home and work, look at what works and what could be done to make improvements in building your relationships, particularly in the context of the Covid-19 Pandemic and our need to communicate in ways other than face-to-face.<br>This is a holistic programme with the focus on benefiting all areas of your life rather than separating work and home.<br>*Benefits to you*<br>You will be able to:<br>• create a map of your current relationships (you will be provided with instructions on how to do this ahead of the session)<br>• identify which of the 5 key values are present in each relationship<br>• explore how relationships might be improved<br>• develop more positive relationships using a number of proven techniques<br>*Target audience*<br>Open to all public and third sector staff in Wales. | Link to information |
| **Cymorth Cymru** | | |
| | Social Care Heroes is a campaign to raise awareness and support for the Social Care workforce in Wales. Cymorth Cymru have been running the campaign throughout the summer and now want to share with their brand-new bilingual **campaign postcards** as we head into the autumn. | Pledge Banner Postcard.pdf<br>Campaign contact: |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae Cymorth Cymru yn gofyn am gefnogaeth i'r ymgyrch ac yn eich gwahodd i ymuno â nhw i godi staff o'r sector ac i ddathlu'r holl waith anhygoel maen nhw'n ei wneud!<br><br>Mae defnyddio'r cerdyn post yn gyflym ac yn hawdd:<br>1. Argraffwch a thorrwch y cerdyn post (ynghlwm wrth yr e-bost hwn) ac ysgrifennwch pam eich bod yn cefnogi staff Gofal Cymdeithasol<br>2. Tynnwch lun o'r cerdyn, (beth am gynnwys eich hun, teulu a ffrindiau?)<br>3. Llwythwch y llun i'r cyfryngau cymdeithasol gyda'r hashnod #SocialCareHeroes<br><br>Dyma enghraifft:<br><br><br><br>Ar ôl i chi dynnu'ch lluniau, llwythwch nhw i'r cyfryngau cymdeithasol gyda #SocialCareHeroes, lle gallwch chi hefyd chwilio am, a rhannu lluniau pobl eraill.<br>Rhannwch yr e-bost hwn gyda ffrindiau, teulu a chydweithwyr gan y byddai'n wych cael cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan. | Hefin@cymorthcymru.org.uk |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymorth Cymru are seeking support for the campaign and invite you to join them to raise up staff from the sector and to celebrate all the incredible work they do!<br><br>Using the postcard is quick and easy:<br><br>1. Print and cut out the postcard (attached to this email) and write down why you're supporting Social Care staff<br>2. Snap a picture of the card, (why not include yourself, family & friends?)<br>3. Upload the picture to social media with the hashtag #SocialCareHeroes<br><br>Here's an example:<br><br><br><br>Once you've taken your pictures, upload them to social media with #SocialCareHeroes, where you can also search for, and share other people's pictures.<br><br>Please share this email with friends, family and colleagues as it would be fantastic to get as many people involved as possible. | Hefin@cymorthcymru.org.uk |

| | | |
|---|---|---|
| | Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgyrch, neu eisiau gwybod sut y gallwch chi gymryd rhan ymhellach, cysylltwch â ni. | |
| **Llywodraeth Cymru** | | |
| **Cyhoeddi cynllun y gaeaf ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru** | Heddiw (15 Medi), bu'r Gweinidog Iechyd, Vaughan Gething, yn disgrifio'r paratoadau sy'n digwydd yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer ymateb i'r heriau mawr y byddant yn eu hwynebu y gaeaf hwn. | https://llyw.cymru/cyhoeddi-cynllun-y-gaeaf-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru |
| **Profi, olrhain, diogelu** | Gwybodaeth amlieithog am symptomau'r coronafeirws, profi am y coronafeirws ag olrhain cysylltiadau. | https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-gwybodaeth-amlieithog-am-y-coronafeirws |
| **Cynllun Yswiriant Bywyd Coronafirws y GIG a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2020** | • Mae'r cynllun yn ymdrin â marwolaethau gweithwyr sy'n gysylltiedig â choronafirws mewn rolau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen<br>• Mae'n darparu £60,000 i fuddiolwyr<br>• Gall cyflogwyr gynorthwyo trwy wneud teuluoedd yn ymwybodol o'r cynllun. | (Saesneg yn unig) https://www.nhsbsa.nhs.uk/coronavirus-life-assurance-2020 |
| **Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a** | Mae'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r newidiadau arfaethedig a fydd yn cael eu cyflwyno gan Reoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 wedi'i gyhoeddi. Bydd y Rheoliadau hyn yn arwain at newidiadau i'r Mecanwaith | https://llyw.cymru/rheoliadau-mabwysiadu-maethu-cwynion- |

| | | |
|---|---|---|
| | If you have any questions about the campaign, or want to know how you can get involved further, please get in touch. | |
| **Welsh Government** | | |
| **Winter plan for health and social services in Wales published** | Health Minister, Vaughan Gething, has today (15 September) set-out the preparations being made by health and social services in Wales for the great challenges they face this winter. | https://gov.wales/winter-plan-health-and-social-services-wales-published |
| **Test, trace, protect** | Multilingual information about coronavirus symptoms, testing and contact tracing. | https://gov.wales/test-trace-protect-multilingual-information-about-coronavirus |
| **NHS and Social Care Coronavirus Life Assurance Scheme (Wales) 2020** | • The scheme covers coronavirus-related deaths of workers in frontline health and social care roles<br>• It provides £60,000 to beneficiaries<br>• Employers can assist by making families aware of the scheme. | https://www.nhsbsa.nhs.uk/coronavirus-life-assurance-2020 |
| **The Adoption and Fostering (Specified Complaints) (Miscellaneous Amendments** | The consultation relating to the proposed changes that will be introduced by the Adoption and Fostering (Specified Complaints) (Miscellaneous Amendments and Revocations) (Wales) Regulations 2020 has been published. These Regulations will bring about | https://gov.wales/proposed-adoption-and-fostering-specified-complaints- |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 arfaethedig** | Adolygu Annibynnol (IRM) ar gyfer penderfyniadau cymwys.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad, a fydd yn helpu i lunio'r broses derfynol a fydd yn disodli'r IRM.<br><br>Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 2ail Tachwedd 2020. | penodedig-diwygiadau-dirymiadau-amrywiol-cymru-2020 | **and Revocations) (Wales) Regulations 2020** | changes to the Independent Review Mechanism (IRM) for qualifying determinations.<br><br>The Welsh Government is inviting responses to the consultation questions, which will help shape the final process that will replace the IRM.<br><br>This consultation will end on the 2nd November 2020. | miscellaneous-amendments-and-revocations-wales |
| **Deddfwriaeth y coronafeirws a chanllawiau ar y gyfraith** | Pasiwyd y cyfreithiau a'r canllawiau ar y cyfreithiau hyn yng Nghymru mewn ymateb i bandemig coronafeirws. | https://llyw.cymru/deddfwriaeth-y-coronafeirws-chanllawiau-ar-y-gyfraith | **Coronavirus legislation and guidance on the law** | The laws and guidance on these laws passed in Wales in response to the coronavirus pandemic. | https://gov.wales/coronavirus-legislation-and-guidance-law |
| **Mesurau diogelwch yn y gweithle yn hollbwysig i atal lledaeniad y coronafeirws** | Mae Ken Skates, Gweinidog yr Economi wedi galw ar gyflogwyr a gweithwyr i wneud popeth bosibl i atal lledaeniad y coronafeirws yn y gweithle. | https://llyw.cymru/mesurau-diogelwch-yn-y-gweithle-yn-hollbwysig-i-atal-lledaeniad-y-coronafeirws | **Workplace safety measures crucial to preventing spread of coronavirus** | Economy Minister Ken Skates has called on employers and workers to do all they can to prevent the spread of coronavirus in the workplace. | https://gov.wales/workplace-safety-measures-crucial-preventing-spread-coronavirus |
| **Risg o ddod i gysylltiad a Coronafeirws - Gweithle** | Canllawiau o dan reoliad 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. | https://llyw.cymru/cymryd-pob-mesur-rhesymol-i-leihaur-risg-o-ddod-i-gysylltiad-ar- | **Risk of Exposure to Coronavirus - Workplace** | Guidance under regulation 13 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No.2) (Wales) Regulations 2020. | https://gov.wales/taking-all-reasonable-measures-minimise-risk-exposure-coronavirus- |

 

| | | |
|---|---|---|
| | | coronafeirws-mewn-gweithleoedd |
| **Rheoliadau coronafeirws: cwestiynau cyffredin** | Beth allwch chi a busnesau ei wneud yn ystod yr argyfwng a beth sy'n digwydd os byddwch yn torri'r deddfau newydd hyn. | https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau |
| **Gwirfoddoli yn ystod pandemig y coronafeirws** | Sut allwch chi helpu pobl agored i niwed regus yn diogel yn ystod pandemig y coronafeirws. | https://llyw.cymru/gwirfoddoli-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws |
| **Cymru'n arwain y ffordd gan roi codiad cyflog i staff gofal sylfaenol** | Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd, Vaughan Gething heddiw y bydd yr holl feddygon, nyrsys a staff sy'n gweithio mewn practisau meddygon teulu yn cael codiad cyflog o 2.8%. | https://llyw.cymru/cymrun-arwain-y-ffordd-gan-roi-codiad-cyflog-i-staff-gofal-sylfaenol |
| **Gorchuddion wyneb: canllawiau i'r cyhoedd** | Bydd yn orfodol i bobl wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus o dan do yng Nghymru o 14 Medi. | https://llyw.cymru/gorchuddion-wyneb-canllawiau-ir-cyhoedd |
| **Canllawiau ar aelwydydd estynedig: coronafeirws** | Rheolau a fydd yn berthnasol i fod mewn aelwydydd estynedig a chyngor ar sut i ffurfio un. Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys terfyn newydd ar y nifer o bobl (6) y caniateir iddynt gwrdd y tu mewn o aelwyd estynedig. | https://llyw.cymru/canllawiau-ar-aelwydydd- |

| | | |
|---|---|---|
| | | workplaces-and-premises-open |
| **Coronavirus regulations: frequently asked questions** | What you and businesses can and cannot do during the outbreak and what happens if you break these new laws. | https://gov.wales/coronavirus-regulations-guidance |
| **Volunteering during the coronavirus pandemic** | How you can safely help vulnerable people during the coronavirus pandemic. | https://gov.wales/volunteering-during-coronavirus-pandemic |
| **Wales leads the way in pay-rise for all staff in primary care** | The Minister for Health, Vaughan Gething has today announced that all doctors, nurses and staff working within GP practices will receive a 2.8% pay uplift. | https://gov.wales/wales-leads-way-pay-rise-all-staff-primary-care |
| **Face coverings: guidance for public** | Face coverings will become mandatory in indoor public places across Wales from 14 September. | https://gov.wales/face-coverings-guidance-public |
| **Guidance on extended households: coronavirus** | Rules that will apply to being in an extended household and advice about how to form one. This update includes a new limit on the number of people (6) allowed to meet indoors from an extended household. | https://gov.wales/guidance-extended-households-coronavirus |

| | | |
|---|---|---|
| | | estynedig-coronafeirws |
| **Cael bwyd a chyflenwadau hanfodol yn ystod pandemig y coronafeirws** | Sut allwch chi gael bwyd a chyflenwadau hanfodol os ydych yn gwarchod, hunanynysu neu yn weithiwr hanfodol. | https://llyw.cymru/cael-bwyd-chyflenwadau-hanfodol-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws |
| **Gwasanaethau cymdeithasol i blant yn ystod y pandemig COVID-19: canllawiau** | Sut y gall darparwyr gofal cymdeithasol i blant newid eu gwasanaethau i gefnogi pobl ifanc yn ystod COVID-19 | Dolen i'r canllawiau |
| **Tenantiaethau Busnes** | Ni chaniateir ail-fynediad neu fforffedu am beidio â thalu rhent (ar gyfer tenantiaethau masnachol) yn ystod y cyfnod sydd bellach yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. | Dolen i'r gwybodaeth |
| **Y Grŵp Cyngor Technegol: datganiad ar brofi cleifion unwaith neu ddwywaith** | Datganiad consensws ar effaith profi cleifion unwaith neu ddwywaith cyn eu rhyddhau o ysbyty i gartref gofal. | https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-datganiad-ar-brofi-cleifion-unwaith-neu-ddwywaith |
| **£33m ar gyfer cyfleuster COVID-19 newydd yng** | Mae'r Gweinidog Iechyd Vaughan Gething wedi cyhoeddi £33m o gyllid ar gyfer cyfleuster newydd ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i ymdopi ag | https://llyw.cymru/ps33m-ar-gyfer-cyfleuster- |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Getting food and essential supplies during the coronavirus pandemic** | How you can get food and essential supplies if you are shielding, self-isolating or a critical worker. | https://gov.wales/getting-food-and-essential-supplies-during-coronavirus-pandemic |
| **Children's social services during the COVID-19 pandemic: guidance** | How children's social care providers can change their services to support young people during COVID-19. | Link to guidance |
| **Business Tenancies** | Re-entry or forfeiture for non-payment of rent (for commercial tenancies) may not be enforced during the period now ending 31 December 2020. | Link to information |
| **Technical Advisory Group: statement on single vs double testing patients** | Consensus statement on the impact of single vs double testing of patients prior to discharge from hospital into a care home. | https://gov.wales/technical-advisory-group-statement-single-vs-double-testing-patients |
| **£33m for new Cardiff and Vale COVID-19 facility** | Health Minister Vaughan Gething has announced £33m funding for a new facility for the Cardiff and Vale Health Board to manage | https://gov.wales/ps33m-new-cardiff-and-vale-covid-19-facility |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nghaerdydd a'r Fro** | unrhyw gynnydd posibl mewn achosion o COVID-19 y gaeaf hwn. | covid-19-newydd-yng-nghaerdydd-ar-fro | | any potential increase in COVID-19 cases this winter. | |
| **Amddiffyn pobl eithriadol o agored i niwed** | Canllawiau ar warchod ac amddiffyn pobl a ddiffinnir ar sail feddygol fel rhai eithriadol o agored i niwed yn sgil y coronafeirws (COVID-19) | Dolen i'r canllawiau<br><br>Cwestiynau cyffredin | **Shielding extremely vulnerable people** | Guidance on shielding and protecting people defined on medical grounds as extremely vulnerable from coronavirus (COVID-19) | Link to guidance<br><br>FAQs |

## Dolenni links / Useful links:

| | |
|---|---|
| Gofal Cymdeithasol Cymru – tudalennau gwe COVID-19<br>https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/gwybodaeth-ac-adnoddau-ich-tywys-trwy-covid-19 | Social Care Wales – Covid-19 web pages:<br>https://socialcare.wales/service-improvement/information-and-resources-to-guide-you-through-covid-19 |
| ADSS Cymru – Cefnogaeth i Ddarparwyr a Gomisiynwyd<br>https://www.adss.cymru/cy/blog/post/covid19-commissioners | ADSS Cymru – Support for Commissioned Providers<br>https://www.adss.cymru/en/blog/post/covid19-commissioners |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru, Datganiadau Dyddiol am 2yp:<br>https://covid19-phwstatement.nhs.wales/ | Public Health Wales, Daily 2pm Statements:<br>https://covid19-phwstatement.nhs.wales/ |
| Arolygaeth Gofal Cymru, Cwestiynnau Cyffredin:<br>https://arolygiaethgofal.cymru/coronafeirws-covid-19-cwestiynau-cyffredin | Care Inspectorate Wales, FAQs:<br>https://careinspectorate.wales/coronavirus-covid-19-frequently-asked-questions-faqs |